# CYNGOR BRO MORGANNWG

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 25 Medi, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J. Aviet (Maer); Cynghorwyr Anne Asbrey, Gareth Ball, Rhiannon Birch, Bronwen Brooks, Gillian Bruce, Ian Buckley, Lis Burnett, George Carroll, Christine Cave, Charles Champion, Janice Charles, Millie Collins, Marianne Cowpe, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Anthony Ernest, Christopher Franks, Wendy Gilligan, Russell Godfrey, Emma Goodjohn, Ewan Goodjohn, Sally Hanks, Howard Hamilton, William Hennessy, Nic Hodges, Mark Hooper, Catherine Iannucci, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Susan Lloyd-Selby, Belinda Loveluck-Edwards, Julie Lynch-Wilson, Kevin Mahoney, Naomi Marshallsea, Michael Morgan, Jayne Norman, Elliot Penn, Sandra Perkes, Ian Perry, Joanna Protheroe, Ruba Sivagnanam, Carys Stallard, Neil Thomas, Rhys Thomas, Steffan Wiliam, Edward Williams, Mark Wilson a Nicholas Wood.

## 384 CYHOEDDIAD -

Yn ystod busnes cyfarfod y Cyngor atgoffodd y Maer y rhai a oedd yn bresennol o’r canlynol: "Hoffwn atgoffa pawb sy’n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio’n fyw yn ogystal â'i recordio drwy'r rhyngrwyd, ac y bydd y recordiad hwn yn cael ei archifo i'w wylio yn y dyfodol".

## 385 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr Samantha Cambell, Robert Fisher, Stephen Haines, Helen Payne a Margaret Wilkinson.

## 386 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 387 COFNODION –

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf, 2023, yn amodol ar newid y ffigur ar dudalen 248 i ddarllen £250,000 fel cofnod cywir.

388 CYHOEDDIAD –

(i) Dywedodd y Maer y bu'n bresennol mewn sawl digwyddiad dwys dros y mis diwethaf. Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiadau coffáu a gosod torchau ar gyfer Diwrnod y Llynges Fasnachol a Brwydr Prydain yn y Barri a Phenarth. Roedd hi hefyd wedi cymryd rhan gydag urddasolion Dinesig eraill yn yr Orymdaith Ffarwel yng Ngorsaf Gweinyddiaeth Amddiffyn Sain Tathan i ffarwelio â sefydliad sydd wedi bod â'i gartref ym Mro Morgannwg ers 1939, ac y mae cysylltiadau agos wedi bod rhyngddo a'r Cyngor ar hyd y blynyddoedd. Dymunodd y Maer yn dda i bawb yn y Weinyddiaeth Amddiffyn yn eu cynlluniau i'r dyfodol.

(ii) Dywedodd yr Arweinydd ei bod y prynhawn hwnnw wedi derbyn deiseb a oedd yn cynnwys dros 13,600 o lofnodion oddi wrth gefnogwyr Diogelu Heddwch Tŷ Hafan, a oedd yn ceisio atal parc carafanau a gwyliau ar dir ar Heol Hayes, Sili, rhwng Tŷ Hafan a Choleg Beechwood. Gan fod y ddeiseb yn ymwneud â chais cynllunio roedd wedi ei hanfon ymlaen i'w hystyried gan yr Adran Gynllunio.

Dywedodd yr Arweinydd hefyd ei bod hi a'r Prif Weithredwr, ynghyd â swyddogion, wedi cyfarfod â thrigolion y Glannau ac, fel yr addawyd, roedd pryderon a godwyd yn y cyfarfod a hefyd drwy e-bost, wedi'u cyfleu i'r Consortiwm mewn cyfarfod ddydd Mercher 20 Medi. Byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob pythefnos o hyn allan i adolygu cynnydd, gyda diweddariadau wythnosol ar gynnydd wrth gyflawni materion seilwaith sy'n weddill yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ochr yn ochr â manylion y cyfarfod preswylwyr. Roedd y Cyngor hefyd yn parhau i fwrw ymlaen â'r camau cyfreithiol.

Hefyd, ddydd Gwener, 22 Medi, pleser o'r mwyaf oedd hi i'r Arweinydd ymuno â phreswylwyr Ogwr ar gyfer agoriad swyddogol eu neuadd bentref. Am ddeugain mlynedd roedd y grŵp bach hwn o bobl leol wedi bod yn gweithio'n ddiflino i ddarparu cyfleuster i'w cymuned. Mae'n rhaid bod y dasg wedi ymddangos yn amhosib ar adegau, ond roedd y canlyniad terfynol yn rhagorol, ac roedd hi'n werth ymweld â'r lle. Roedd y neuadd ar yr arfordir, gyda golygfeydd godidog a chaffi.

Yn hwyrach ar yr un diwrnod roedd hi wedi ymuno â Chymdeithas Tai Newydd a Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg, a llawer o breswylwyr lleol i ddathlu gosod y ffenestri lliw yn St Pauls ar Arcot Street, Penarth. Dyma oedd y cam olaf i gwblhau'r datblygiad a oedd yn darparu llety y mae angen mawr amdano, a chanolfan gymuned ac ynddi gyflenwad da o offer. Dyluniwyd y ffenestri gan yr artist lleol, Sarah Sweeney, gyda chymorth disgyblion o Ysgol Stanwell a Chymdeithas Ddinesig Penarth, ac roedd hi'n sicr y byddai'r ffenestri a'r ganolfan gymuned yn datblygu'n ganolbwynt i'r dref am ddegawdau i'r dyfodol.

(iii) Roedd y Cynghorydd Birch, Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg, yn falch o hysbysu'r holl Gynghorwyr am ymweliad Jeremy Miles,

y gweinidog AS sy'n gyfrifol am Addysg, i ddau o gyfleusterau newyddaf y Cyngor yn y Fro.

Yn gyntaf, roedd wedi ymweld â'r Derw Newydd, cangen o Ysgol y Deri, a adeiladwyd ar hen safle depo Court Road, gan wneud defnydd da o safle tir llwyd. Dangoswyd iddo'r ystafelloedd dosbarth golau braf a'r cyfleusterau addysgu o'r radd flaenaf, yn ogystal â'r garejys a'r tai allan a oedd wedi'u hailbwrpasu i'w troi'n weithdai lle gallai myfyrwyr ennill sgiliau ymarferol ochr yn ochr â chymwysterau academaidd.

Roedd y Gweinidog yn llawn canmoliaeth i'r ysgol ac am ymrwymiad y Cyngor i sicrhau bod pob myfyriwr yn cael cyfle i wireddu ei botensial. Yr oedd hefyd yn awyddus i ymweld â safle Ysgol y Deri newydd pan fyddai'r gwaith hwnnw'n dechrau.

Yn ail, ymwelodd ag Ysgol newydd Sant Baruc, yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar y Glannau. Roedd hwn yn adeilad arall ac ynddi ystafelloedd golau braf, a mynediad llawn i'r tu allan, ac yn ystod yr ymweliad roedd y dosbarth Derbyn yn symud rhwng ystafelloedd dosbarth a'r iard wrth iddynt chwarae'n ddychmygus. Cyflwynodd y contractwyr adeiladu, Galliford Try, hefyd siec am swm sylweddol i'r Pennaeth, Rhian Andrew.

Unwaith eto, gwnaeth cyfleusterau'r ysgol a'i nodweddion gwyrdd argraff ar y Gweinidog, Jeremy Miles; nid oedd nwy yn adeilad yr ysgol, roedd yn cael ei redeg ar bympiau gwres ffynhonnell aer. Roedd paneli ffotofoltäig ar y to yn porthi system storio batri ar-safle, pwyntiau gwefru cerbydau trydan, ac ardaloedd mawr o gynefin a fyddai'n cynyddu bioamrywiaeth ar y safle. Mynegodd y Gweinidog longyfarchiadau i bawb a gymerodd ran yn y gwaith, ac roedd yr ymweliad yn foddhaus ac yn gyfle i arddangos buddsoddiad y Fro yn ei disgyblion a'i rhaglen ysgolion.

(iv) Achubodd y Cynghorydd Mark Wilson, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu ar y cyflei ddiolch i swyddogion y Cyngor am eu gwaith rhagorol wrth weithredu'r TROs terfyn cyflymder diweddar a'r newid i arwyddion yn y Fro. Dywedodd hefyd y byddai'n ddiolchgar pe bai modd i breswylwyr gysylltu a rhoi gwybod i'r Cyngor os oedd unrhyw anghysondebau, naill ai drwy ganolfan alwadau'r Cyngor neu drwy gysylltu â'u cynghorydd lleol. Gan mai newydd ddechrau cael ei weithredu oedd y cynllun, diolchodd i'r preswylwyr am gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a nododd ei bod hi'n ddigon posib y byddai mân broblemau yn codi a fyddai'n cael eu datrys cyn hir. Byddai adolygiad trylwyr hefyd yn cael ei gynnal o derfynau cyflymder yn 2024, a byddai Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol ac yn diwygio ei Chylchlythyr 24/2009 - Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru yn ogystal â'i chanllawiau ar eithriadau 30MYA. I gloi, dywedodd y byddai aelodau eraill y Cabinet ac yntau'n rhoi unrhyw newyddion diweddaraf i'r Aelodau.

(v) Deiseb –Cyflwynodd y Cynghorydd Anne Asbrey ddeiseb ynghylch Goleuadau ar Ash Path, Dinas Powys, ar ran Ward Cross Common, Dinas

Powys. Dywedodd y Maer y byddai'r ddeiseb yn cael ei throsglwyddo i'w hystyried gan yr adran berthnasol.

389 CYDBWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYD-BWYLLGOR CORFFORAETHOL DE DDWYRAIN CYMRU (AG/PA) –

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i benodi Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (y "JOSC") fel Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru (CJC) a chytuno ar y Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer eu swyddogaethau.

Wrth gyflwyno'r adroddiad dywedodd yr Arweinydd nad oedd y gwaith i sefydlu'r JOSC ond megis dechrau. Dywedodd y Cynghorydd Mahoney nad oedd yn gweld pwrpas i Bwyllgor o'r fath.

Er hynny, yn dilyn pleidlais, penderfynwyd

PENDERFYNWYD –

(1) Penodi'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu (CTCh) fel y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Cydbwyllgor Corfforaethol (CBC) De-ddwyrain Cymru.

(2) Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl Drafft ar gyfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad â'r CBC, fel sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

(3) Nodi y bydd y gost o weinyddu'r CTCh ar gyfer y CBC yn cael ei drin gan Gytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'r CBC, i'w gwblhau maes o law.

(4) Bod CTCh y CBC yn adolygu ei Gylch Gorchwyl yn ei gyfarfod ffurfiol cyntaf a bod unrhyw welliannau yn cael eu hadrodd i'r Awdurdodau Lleol cyfansoddol perthnasol.

(5) Mai cynrychiolaeth y Cyngor ar y CTCh ar gyfer y CBC fydd Cadeirydd Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd ac Adfywio, a'r Cynghorydd I.A.N. Perry, aelod o Bwyllgor Craffu yr Amgylchedd ac Adfywio yn Ddirprwy.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1-4) Sicrhau bod swyddogaethau trosolwg a chraffu priodol yn cael eu gweithredu mewn cysylltiad â'r CBC.

(5) Y Cadeirydd a'r Cynghorydd Perry yn Ddirprwy yw cynrychiolaeth anweithredol penodedig y Cyngor ar y CTCh ar gyfer Pwyllgor CBC De-ddwyrain Cymru.

390 DEFNYDDIO PWERAU ARGYFWNG Y PRIF WEITHREDWR (PW) –

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o Bwerau Brys gan y Prif Weithredwr fel y'i ceir o fewn yr adroddiad yn cael ei nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried Cyfansoddiad y Cyngor.

391 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CRAFFU 2022-23 (CAC) –

Roedd yr Adroddiad Blynyddol wedi cael ei lunio'n unol ag Adran 7.4.4 o Gyfansoddiad y Cyngor a oedd yn datgan "Rhaid i Bwyllgorau Craffu adrodd yn flynyddol i'r Cyngor Llawn ar eu gwaith, gan gynnwys argymhellion ar gyfer eu blaenraglenni gwaith a dulliau gweithio diwygiedig os yw'n briodol".

Roedd yr adroddiad yn manylu ar rôl Craffu, sut mae Craffu yn cael ei gyflawni ym Mro Morgannwg ac yn amlygu'r prif gyflawniadau o waith pob Pwyllgor Craffu, digwyddiadau pwysig yn ystod y blynyddoedd y Cyngor a gwaith yn y dyfodol, yn benodol mewn perthynas â chytundeb y Cyngor y dylai gwaith pob Pwyllgor Craffu fod wedi'i alinio'n agos â'r pedwar Canlyniad Llesiant yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor 2020-25 ac, yn dilyn hynny, y pedwar Amcan Llesiant a oedd yn sail i Gynllun Corfforaethol newydd y Cyngor.

Eglurodd y Cynghorydd Thomas hefyd, o ran yr ystadegau a'r argymhellion a gyfeiriwyd i sylw'r Cabinet, y cytunwyd â 63.3% o'r argymhellion, ond ei bod hi'n bwysig nodi, er bod rhai o'r argymhellion wedi'u nodi gan y Cabinet, nad oedd unrhyw argymhelliad wedi'i anghymeradwyo.

Dywedodd y Cynghorydd Franks ei fod o'r farn nad oedd Pwyllgorau Craffu yn ymchwilio i'r manylion mewn cyfarfodydd Pwyllgor fel y dylent, a theimlai y dylid gwneud mwy i hyfforddi a darparu arbenigedd i'r Aelodau, gan fod gormod o amser yn cael ei dreulio yn diolch i'r swyddogion yn ei farn ef.

Ymhellach i hynny, wrth gytuno â´r Cynghorydd Franks, dywedodd y Cynghorydd Ernest fod gormod o dudalennau yn yr adroddiadau, gan atal y Pwyllgor rhag mynd at wraidd yr hyn a oedd yn cael ei drafod fel y dylent, gyda'r Aelodau wedi'u llethu, yn ei farn ef, â'r manylion yn adroddiadau'r swyddogion. Dywedodd hefyd nad beirniadaeth oedd hyn, ond beirniadaeth adeiladol, ac awgrymodd y dylid cynnwys llai o eitemau ar agendâu yn y dyfodol.

Mewn ymateb i'r ddau sylw dywedodd y Cynghorydd Thomas y byddai'r Aelodau'n ymwybodol o'r adroddiadau a oedd wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgorau ac a ystyriwyd gan Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu ynghylch cynigion i graffu'n effeithiol. Roedd nifer o'r cynigion yn cael eu datblygu gan gynnwys gweithdy Craffu i'w drefnu dros yr ychydig fisoedd nesaf. Roedd Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu hefyd wedi ystyried eitemau ar gyfer gwaith Gorchwyl a Gorffen a oedd wedi'u hanfon ymlaen i sylw'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion i'w blaenoriaethu. Gwnaeth sylwadau pellach ar

y gwaith da oedd yn cael ei wneud i hyrwyddo craffu effeithiol, ac roedd yn croesawu mewnbwn yr holl Aelodau yn ystod y broses hon ac mewn cyfarfodydd.

Ar ôl hynny,

PENDERFYNWYD – BOD Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2022/23 yn cael ei dderbyn.

Rheswm dros y penderfyniad

Derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Sgriwtini fel sy'n ofynnol o dan Gyfansoddiad y Cyngor.

392 ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2022/23 (CYF) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2022/23 gan ddweud bod yr adroddiad hwn hefyd wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar 19 Gorffennaf, 2023, bod adroddiad monitro pellach wedi'i gyflwyno ar gyfer Chwarter 1 ym Medi 2023, a bod y ddogfen hon bellach yn cael ei chyflwyno fel yr Adroddiad Blynyddol.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau pellach, ar ôl hynny

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2021/22 fel y'i hystyriwyd gan y Cabinet ar 6 Gorffennaf, 2023 (Cofnod Rhif C45).

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

393 GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG ARFAETHEDIG AR GYFER EITHRIADAU I DERFYN CYFLYMDER DIOFYN 20MYA CYMRU A GWEITHREDU TERFYNAU CYFLYMDER ATEGOL (CYF) –

Ar ôl ystyried yr adroddiad

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod y Cabinet Rhif. C96, 7 Medi, 2023 (fel y nodir yn Adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor) yn cael ei nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

394 CWESTIYNAU YN UNOL AG ADRAN 4.18 O GYFANSODDIAD Y CYNGOR –

Cyflwynwyd yr ymatebion a ganlyn i gwestiynau'r Aelodau fel yr oeddent wedi'u cynnwys ar yr agenda:

(i) **Cwestiwn gan y Cynghorydd KP. Mahoney**

A all yr Aelod Cabinet gadarnhau cyfanswm y gwariant ar gyfer adeiladu'r hyb trafnidiaeth newydd yn Swyddfa'r Dociau; pa wasanaethau bws sydd ar lwybr i alw yno, pa broses sydd wedi'i rhoi ar waith i fonitro nifer y defnyddwyr, a faint o ddefnyddwyr bws sydd wedi manteisio ar yr hyb newydd hyd yma, ers iddo gael ei gwblhau?

**Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy**

Cyfanswm cost y Cynllun yw £2.7 miliwn a oedd yn cynnwys yr holl waith cyn adeiladu, gan gynnwys arolygon/dylunio/achos busnes, ffioedd proffesiynol, adeiladu, goruchwylio'r safle, yn ogystal â ffioedd cleientiaid. Nid oedd unrhyw gost ariannol i'r Cyngor ac roedd ffioedd rheoli Swyddogion hefyd wedi'u hariannu.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fysus yn gwasanaethu Cyfnewidfa Dociau'r Barri. Mae gwasanaethau wedi cael eu canslo a thoriadau i fynychder gwasanaethau bws ledled Cymru yn sgil gostyngiad i'r cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, wrth iddi symud oddi wrth y 'Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau' i'r 'Gronfa Bontio ar gyfer Bysiau' sy'n llai hael.

Mae fy Swyddogion yn cynnal trafodaeth ag Adventure Travel a Bws Caerdydd ynghylch gwasanaethau i mewn ac allan o'r gyfnewidfa, ond yn gwerthfawrogi sefyllfa anodd y gweithredwyr bysiau. Bu gostyngiad o 30% yn nifer y teithwyr yn dilyn pandemig COVID-19, felly maen nhw'n amharod ar hyn o bryd i ychwanegu amser at wasanaethau cyfredol neu ddiwygio amserlenni, a allai fod ar draul ardaloedd eraill a wasanaethir gan eu llwybrau.

**Atodol**

Holodd y Cynghorydd Mahoney pam bod cysgodfan fysiau - pam bod terfynfa fysiau gwerth £2.7 miliwn yn cael ei adeiladu, pan nad oeddent yn gwybod a fyddai unrhyw wasanaethau bws yn ei ddefnyddio.

Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Aelod Cabinet fod Cyfnewidfa newydd Dociau'r Barri yn rhan o fframwaith gwella'r Metro a oedd yn cael ei ddatblygu gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, yr oedd Cyngor Bro Morgannwg yn aelod ohoni.

(ii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd KP. Mahoney**

Mae'n bwysig ystyried gwerthuso lefelau allyriadau cerbydau cyn ac ar ôl y terfynau cyflymder 20 mya newydd a orfodwyd ledled Cymru a Bro Morgannwg,

oherwydd pryderon bod injanau cerbydau bellach yn gweithio'n llai effeithlon mewn gerau is.

Rwy'n siŵr y byddai unrhyw gynnydd yn narlleniadau'r allyriadau, a gostyngiad posibl yn sgil hynny yn ansawdd yr aer, yn cael ei ystyried yn annerbyniol gan bawb, ac mae monitro i sicrhau canlyniadau'r darlleniadau, wrth gwrs, yn hanfodol i liniaru'r pryderon hynny.

A allwch restru lleoliadau offer monitro ansawdd yr aer a oedd wedi'u gosod ledled y Fro cyn y newid, a darparu darlleniadau cynhwysfawr o'r gorsafoedd monitro hyn cyn gosod y terfynau cyflymder newydd fel bo modd cymharu'r darlleniadau hynny â'r darlleniadau a gymerir ar ôl i'r terfynau cyflymder newydd ddod i rym, ac esbonio pryd y bydd y darlleniadau ar ôl cyflwyno'r terfynau cyflymder newydd ar gael i'w cymharu.

**<u>Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy</u>**

Bob hydref, mae'r Cabinet yn derbyn yr Adroddiad Cynnydd Blynyddol ar Fonitro Ansawdd yr Aer diweddaraf ar gyfer ardal Cyngor Bro Morgannwg.

Yr Adroddiad Cynnydd Blynyddol diweddaraf ar Ansawdd yr Aer yr adroddiad 2022 sy'n adolygu data ar ansawdd yr aer a gasglwyd yn 2021. Mae'r adroddiad hwn yn nodi oddeutu 47 o leoliadau sefydlog i fonitro ansawdd yr aer, ynghyd â'r canlyniadau ansawdd yr aer a gafwyd ohonynt ar gyfer y llygrydd Nitrogen Deuocsid.

Felly, i ddibenion y cwestiwn hwn, byddai adroddiad 2022 yn darparu'r 'llinell sylfaen' a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar o ddata monitro ansawdd yr aer cyn cyflwyno'r terfyn cyflymder o 20mya yn ddiweddar ar rai ffyrdd, a bydd hyn yn cael ei ddiweddaru'n fuan pan gyhoeddir adroddiad 2023 yn yr wythnosau nesaf. O ran y darlun ar gyfer ansawdd yr aer *ar ôl* cyflwyno'r terfyn cyflymder o 20mya ar rai ffyrdd yn ddiweddar, ni fydd data blwyddyn lawn ar gael nes i ganlyniadau 2024 gael eu hadolygu a'u cyhoeddi yn Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2025, a ystyrir gan y Cabinet yn nhymor yr hydref 2025.

**<u>Atodol</u>**

Gofynnodd y Cynghorydd Mahoney a fyddai'n rhaid iddo barhau i ofyn am yr adroddiad ac a fyddai'n cael cyhoeddusrwydd eang.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet drwy ddweud y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet maes o law gydag argymhelliad i'r Cabinet gytuno bod yr adroddiad yn cael ei anfon at yr holl Aelodau.

(iii) **<u>Cwestiwn gan y Cynghorydd JE. Charles</u>**

Yn dilyn fy nghwestiwn olaf i'r Cyngor llawn, a allai'r Aelod Cabinet gadarnhau o ba ddyddiad y mae Iawndal Milwrol wedi'i eithrio o brawf modd ac, os mai ond yn

ddiweddar y cafodd hyn ei roi ar waith, a gaiff asesiadau eu hadolygu'n ddiofyn, ac a wneir ôl-ddyfarniadau lle bo'n briodol?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet Gofal Cymdeithasol ac Iechyd**

Fe'm cynghorwyd gan gydweithwyr yn y gwasanaeth Budd-daliadau fod iawndal milwrol wedi'i eithrio o Fudd-dal Tai ers blynyddoedd lawer, mor bell yn ôl â 1999 o leiaf.

Ar gyfer cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, mae'r un darpariaethau wedi bod ar waith ers mis Ebrill 2013 pan ddechreuodd y cynllun.  Cyn hyn roedd Budd-dal y Dreth Gyngor a oedd yn unol â Budd-dal Tai mor bell yn ôl â 1999 o leiaf.

O ran Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, mae'r Polisi Adnewyddu Tai cyfredol wedi bod ar waith ers 2014.  Disgwyliwn y bydd Polisi Byw'n Annibynnol diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn y misoedd nesaf.

**Atodol**

A yw'r Aelod Cabinet yn gwybod faint o gyn-filwyr sydd wedi derbyn dyfarniadau anffafriol, ac a oes graddfa amser i'r cyn-filwyr dderbyn y dyfarniadau hynny, ac a fyddent yn ad-daliadau diofyn neu a fyddai'n rhaid iddynt gyflwyno cais eu hunain?

Mewn ymateb i hyn dywedodd yr Aelod Cabinet, pe bai modd i'r Cynghorydd Charles roi'r union fanylion, y byddai'n gofyn i'r swyddogion ymchwilio i'r mater. Roedd yn eithaf sicr mai'r Fro oedd un o'r awdurdodau gorau i ymdrin â materion o'r fath, a dywedodd fod y Cyngor yn llwyr gefnogi'r Cyfamod, y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd.

(iv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G.D.D. Carroll**

Beth yw safbwynt y Cyngor ynghylch wythnos waith pedwar diwrnod?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Ar hyn o bryd nid ydym yn bwriadu cyflwyno darpariaethau ar gyfer wythnos waith pedwar diwrnod.

**Atodol**

Wrth gyfeirio at y cynnydd yn y Dreth Gyngor, y ffioedd am gasglu gwastraff gardd, a'r ddarpariaeth ar gyfer sachau du, teimlai fod preswylwyr o'r farn fod perfformiad y Cyngor wedi dirywio, a gofynnodd i'r Arweinydd a fyddai'n diystyru gweithredu wythnos waith pedwar diwrnod yn llwyr.

Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Arweinydd y byddai'n ddiddorol gweld adroddiad Cyngor Partneriaethau'r Gweithlu yn y dyfodol, ond dywedodd fod y Cyngor yn gwerthfawrogi ei weithwyr ac yn arbennig y gwaith rhagorol yr oeddent

yn ei wneud. Roedd y gallu i gynnig hyblygrwydd yn un ymagwedd bosib, ac roedd hi'n anghytuno â honiadau'r Cynghorydd Carroll fod preswylwyr yn teimlo bod perfformiad y Cyngor wedi dirywio.

(v) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G.D.D. Carroll**

Ers i daliadau gael eu cyflwyno am y gwasanaeth casglu gwastraff gardd, faint o achosion o gasgliadau hwyr (hy y rhai a ddigwyddodd ar ôl y diwrnod casglu a drefnwyd) sydd wedi'u cofnodi?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Nid yw'r gwasanaeth yn casglu'r data hyn, ond cydnabyddir bod y gwasanaeth hwn yn hwyr ar brydiau. Fe wyddoch fod gennym gyfnod wrth gefn o 72 awr wedi'i gynnwys yn nhelerau ac amodau'r gwasanaeth newydd.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Carroll a allai preswylwyr ddisgwyl ad-daliad os nad oedd casgliadau yn digwydd ar y dyddiad a hysbysebwyd?

Mewn ymateb dywedodd yr Aelod Cabinet fod y 72 awr yn y cynllun wrth gefn a bod trigolion yn talu am hynny.

(vi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G.D.D. Carroll**

Pan geir cwynion a beirniadaeth ynghylch perfformiad y Cyngor gan y cyhoedd ar y cyfryngau cymdeithasol, beth yw polisi'r Cyngor ar gyfer ymateb i hynny?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Mae Polisi Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor yn esbonio sut rydym yn anelu i ymgysylltu â dinasyddion ar-lein. Y mae wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Carroll i'r Arweinydd gadarnhau nad oes unrhyw un o aelodau staff y Cyngor wedi cael cyfarwyddyd i ddefnyddio eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol eu hunain i amddiffyn y Cyngor.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai'n synnu'n fawr pe bai hynny'n wir, ond os oedd gan y Cynghorydd Carroll unrhyw fanylion penodol, a wnâi roi'r wybodaeth gywir iddi, gan y byddai'r Cynghorydd yn ymwybodol fod Aelodau o'r Cyngor wedi rhoi gwybodaeth anghywir ar y cyfryngau cymdeithasol droeon, ac y bu'n rhaid cywiro'r gamwybodaeth honno yn gyhoeddus.

(vii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G.D.D. Carroll**

Gan fod y terfynau cyflymder 20mya cyffredinol wedi dod i rym, pa gynlluniau sydd gan y Cyngor i adolygu terfynau cyflymder ym Mro Morgannwg a chyflwyno addasiadau pellach os oes angen?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Nid wyf yn derbyn y gair 'cyffredinol' yn eich cwestiwn. Mae hyn yn enghraifft o or-ddweud gwirioneddol sydd wedi gwneud i bobl feddwl bod pob ffordd bellach yn 20mya, gan gynnwys eithriadau, a ffyrdd y tu allan i gwmpas y cynllun lle mae'r terfyn cyflymder yn 40mya neu'n uwch.

Gallaf ddweud y bydd y Cyngor yn monitro ffyrdd eithriedig sydd yn cael eu cadw'n 30mya ac yn cynnal adolygiadau o'r ffyrdd hynny ac o ffyrdd eraill o fewn ei ardal leol lle codir pryderon, i sicrhau hyd y bo'n rhesymol ac yn ymarferol, fod terfynau cyflymder yn addas i'r amodau.

**Atodol**

Pa gyfleoedd gaiff Cynghorwyr i graffu ar y penderfyniadau hyn.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod cryn ymgynghori wedi'i gynnal ar y mater yn yr haf, pan gafodd yr Aelodau a'r cyhoedd gyfle i ymateb.

(viii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G.D.D. Carroll**

A wnaiff yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf os gwelwch yn dda am berfformiad gweithredol casgliadau gwastraff sachau du ar gyfer fflatiau ag ardaloedd gwastraff cymunedol, sydd wedi aros ar gylch casglu pythefnosol?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Rydych chi'n gofyn am 'yr wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad gweithredol casgliadau gwastraff sachau du ar gyfer fflatiau', ond nid yw'n glir o'ch cwestiwn pa wybodaeth yn union rydych chi'n ei cheisio. Fodd bynnag, gallaf ddweud nad yw'r tunelli o sachau duon o fflatiau a rhandai yn cael eu gwahanu oddi wrth y gwasanaeth casglu prif ffrwd, felly nid oes modd edrych ar berfformiad unigol y gwasanaeth hwnnw, ond teg yw dweud bod hyn wedi aros yn sefydlog i raddau helaeth ers cyflwyno'r gwasanaeth casglu teirwythnosol i'r rhan fwyaf o breswylwyr.

**Atodol**

Pa gamau a gymerwyd gan y Cyngor i sicrhau bod casgliadau o ardaloedd gwastraff cymunedol yn cael sylw?

Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd yn ymwybodol o unrhyw broblemau, a gofynnodd i'r Cynghorydd Carroll roi manylion iddo er mwyn iddo allu ymchwilio i'r mater a rhoi ymateb priodol.

(ix) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Pa gynlluniau sydd ar waith i sicrhau y caiff Cyfnewidfa Drafnidiaeth Dociau'r Barri ei gwasanaethu gan fysiau yn y dyfodol?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Cyfeiriaf yr ateb i Gwestiwn 1 yn y cyfarfod i sylw'r Aelod.

**Atodol**

Pa drafodaethau oedd y Cynghorydd Wilson a'r Cynghorydd Brooks yn eu cynnal ag awdurdodau lleol eraill a Llywodraeth Cymru?

Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Cynghorydd Wilson, fel Aelod o'r Cabinet, fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal a bod ymgyrchoedd yn cael eu cynnal i lobïo am swm mwy o arian.

(x) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.J. Johnson**

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i atal parcio ar balmentydd, gyda phroses o eithriadau sy'n debygol o fod yn debyg i'r eithriadau a gyflwynwyd yn ddiweddar i'r terfyn cyflymder rhagosodedig o 20mya. Pa wersi a ddysgwyd o'r broses honno a fydd o ddefnydd wrth gyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Nid wyf o'r farn ei bod hi'n briodol nac yn synhwyrol ar hyn o bryd i gymharu'r ddwy broses na'r ddeddfwriaeth ofynnol. Hynny yw - mae'n gynamserol. Fodd bynnag, gallaf gadarnhau y bydd y Cyngor yn ymgysylltu'n llawn â Llywodraeth Cymru pan gyhoeddir yr ymgynghoriad gyda'r nod o sicrhau'r trefniadau mwyaf ffafriol i'r Cyngor allu rheoli troseddau parcio ar y pafin, a chymryd camau gorfodi yn gysylltiedig â hynny.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Dr. Johnson pa wersi a oedd wedi'u dysgu hyd yma.

Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd ganddo ddim byd pellach i'w ddweud.

(xi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Mae disgwyl i’r llosgydd biomas ar Ddociau’r Barri ryddhau tua 130,000 tunnell o garbon deuocsid biogenig i’r atmosffer ar sail y ffactor llwytho a gynlluniwyd, yn ôl ffigyrau y cytunwyd arnynt gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Gan dybio mai'r allyriadau fesul pen cyfredol yw oddeutu 10 tunnell fesul pen, mae'r allyriadau'n gyfwerth â bron chwarter poblogaeth y Barri. O ran polisi cynllunio, sut mae datblygiadau carbon-ddwys yn cyd-fynd â datganiadau o argyfwng hinsawdd a pholisïau di-garbon?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltiad Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ymgynghorai allweddol ar y ceisiadau cynllunio presennol, a nhw sy’n gyfrifol am ganiatáu’r gwaith. Wrth asesu'r ceisiadau cynllunio ac wrth i CNC benderfynu a ddylid caniatáu trwydded, cynhaliwyd asesiadau o'r effeithiau amgylcheddol tebygol, er mwyn sicrhau mai ond os nad oes unrhyw effeithiau annerbyniol ar yr amgylchedd y rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau.

**Atodol**

Gofynnodd Dr. Johnson sut y byddai'r Cyngor yn sicrhau cynllun realistig i leihau carbon erbyn 2025.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet ei hymateb i'r cwestiwn i sylw'r Cynghorydd Dr. Johnson, gan ddweud bod y Cyngor yn ymgynghori ag arbenigwyr, a chan fod swyddogion yn y Cyngor yn dal i asesu'r cais cynllunio, ni ellid dweud eto a oedd yr ymgeisydd yn bodloni'r gofynion ai peidio.

(Xi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Mae cais cynllunio 2015/00031/OUT yn gysylltiedig â llosgydd biomas y Barri yn cael ei ddisgrifio’n aml fel cais sydd â chaniatâd cynllunio, yn yr ystyr y gellir ei weithredu. Fodd bynnag, penderfynwyd hefyd y dylid cyflwyno Datganiad Amgylcheddol yn rhan o ymgais i reoleiddio'r datblygiad na chafodd ei adeiladu yn unol â'r cynlluniau. Os oedd cais 2015 yn ddiffygiol yn sgil methiant i gyhoeddi Asesiad Effaith Amgylcheddol (neu pa derminoleg bynnag a ddefnyddir), sut y gellir rheoleiddio datblygiad pan na ellir profi y byddai wedi cael caniatâd cynllunio yn y lle cyntaf.

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltiad Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio**

Cyngor cyfreithiol y Cyngor yw fod caniatâd wedi'i roi, ac nid yw'r ffaith na chyflwynwyd AEA gyda'r cais blaenorol yn dileu'r caniatâd nac yn ei atal rhag cael ei weithredu'n gyfreithlon. Ymhellach i hynny, heb i Lys ddirymu'r caniatâd mae'n dal i fodoli. Er gwaethaf hyn, mae'r ceisiadau cyfredol yn ceisio rheoleiddio'r

datblygiad fel y mae wedi'i adeiladu, a gellir eu hasesu yn ôl eu rhinweddau, ac mae AEA wedi'i gyflwyno gyda'r ceisiadau cyfredol.

**Atodol**

Sut y gallai'r Cyngor ddweud y dylai caniatâd cynllunio 2015 fod wedi cael ei roi.

Unwaith eto cyfeiriodd yr Aelod Cabinet ei hymateb i sylw'r Cynghorydd Dr. Johnson, gan ddweud mai cyngor y Cwnsler ynghylch y mater hwn oedd na fyddai'r AEA wedi effeithio ar gyfreithlondeb y caniatâd cynllunio.

(xiii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.M. Cowpe**

Dywedwyd yng Nghwestiynau'r Prif Weinidog (PMQS) ym mis Gorffennaf 2023 fod £180 miliwn yn dod i Gymru ar gyfer seilwaith trafnidiaeth. Pa gyfran o'r arian hwn a ddaw i Fro Morgannwg, a sut y bwriedir defnyddio'r arian hwn i gefnogi'r system drafnidiaeth?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Arweinydd Gweithredol y byddai'n rhoi gwybod i'r Aelodau wedi iddi gael gwybod am yr arian a oedd wedi'i ddyrannu.

(xiv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.M. Cowpe**

Mae niferoedd PCSOs yn llai ym Mro Morgannwg nag yn unrhyw Awdurdod arall yn Ne Cymru mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael yn dangos cyfartaledd o 15.25 PCSO dros y flwyddyn ym Mro Morgannwg a 58.25 yng Nghaerdydd. A yw Cyngor Bro Morgannwg yn hapus gyda hyn, ac a yw Cyngor Bro Morgannwg yn teimlo y dylid gofyn cwestiwn ynghylch cyllid i Heddlu De Cymru?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Llesiant (o dan y portffolio Tai Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid)**

I ddechrau, nid ydym yn cydnabod yr ystadegau a ddarparwyd. Ar hyn o bryd mae 35 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) yn gweithio ar draws pob ward ym Mro Morgannwg. Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl sy'n penderfynu ynghylch niferoedd PCSOs a'r modd y'u dyrennir i ardaloedd. Gan hynny, dylid cyfeirio unrhyw bryderon ynghylch y mater hwn i'w sylw nhw.

Fodd bynnag, os gallwch roi manylion eich ffynhonnell data byddaf yn gofyn i'm swyddogion ofyn i'r Heddlu am ymateb i'r ffigurau hynny.

**Atodol**

Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Cynghorydd Cowpe y byddai'n anfon y ffigurau ymlaen i'r Cabinet.

(xv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd M.J. Hooper**

Flwyddyn yn ôl, bron i’r diwrnod, yn y cyfarfod hwn, gofynnais i’r Arweinydd am sicrwydd y byddai’r Cyngor yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y datblygwyr yn cwblhau’r holl waith anorffenedig yn natblygiad y Glannau.

Mae'r cofnodion yn dangos bod yr Arweinydd wedi ymateb drwy ddweud 'Mae swyddogion yn gweithio ar hyn o bryd i sefydlu'r mecanwaith cyfreithiol mwyaf priodol ar gyfer gweithredu mewn perthynas â thraethau a methiant i ddarparu'r mannau agored gofynnol a seilwaith arall.'

Pan ofynnais am ddiweddariad yng nghyfarfod 5 Rhagfyr y llynedd, dywedodd yr Arweinydd wrth y Cyngor 'y dylid gweithredu'r cymal datrys anghydfod yn y cytundeb cyfreithiol cyn cymryd camau cyfreithiol.'

Mae'r Arweinydd yn llwyr ymwybodol mai ychydig iawn sydd wedi newid ar y ddaear ers gwneud y datganiadau hyn. Mae preswylwyr yn dal i orfod dioddef ffyrdd anniogel, palmentydd annigonol a diffyg mannau agored i'r cyhoedd. Dyma'r sefyllfa ers dros bedair blynedd i rai ohonynt.

Ac ystyried y sylwadau cyhoeddus a wnaeth yr Arweinydd yn ddiweddar ynghylch methiant y datblygwyr i gwblhau’r prosiectau, byddwn i, a thrigolion y Glannau, yn croesawu diweddariad penodol ar y prosesau cyfreithiol y mae’r Cyngor wedi'u canlyn ar ein rhan yn y cyfamser, yn gysylltiedig â'r broses datrys anghydfod.

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Rwy’n synnu’n fawr at y cwestiwn hwn ac ystyried y bu'r Cynghorydd Hooper yn bresennol yn y cyfarfod cymunedol a drefnais ar gyfer dydd Llun yr wythnos ddiwethaf. Byddai’r Cynghorydd Hooper wedi gwrando ar y drafodaeth a’r atebion amrywiol a roddwyd gennyf i a'r swyddogion i amrywiaeth eang o gwestiynau. Rwy’n siŵr y bydd y Cynghorydd Hooper wedi clywed yr ateb manwl iawn a roddwyd gan y Prif Weithredwr yn y cyfarfod i gwestiynau tebyg i'r cwestiwn hwn y mae'n ei ofyn heno.

Yn ogystal â hynny, ac fel y gwyddoch, mae'r holl wybodaeth a'r diweddariadau bellach y fyw ar wefan Cymru Rhan y Fro.

**Atodol**

Holodd y Cynghorydd Hooper beth oedd wedi digwydd o fis Rhagfyr 2022 hyd yma, a pha brosesau cyfreithiol a ddilynwyd.

Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Aelod Cabinet ei bod wedi cynnal trafodaethau â'r Consortiwm ers bron i ddeng mlynedd.  Roedd swyddogion wedi cyfarfod â datblygwyr y Glannau ac roedd cyfarfodydd cadarn wedi cael eu cynnal.  Roedd y Cyngor yn disgwyl diweddariadau yn erbyn cynllun y prosiect a dywedodd wrth yr Aelodau na fyddent yn atal y camau cyfreithiol a roddwyd ar waith.

(xvi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.P. Franks**

Byddwch yn ymwybodol bod tua 7 erw o dir i gael ei drosglwyddo’n ôl i’r Cyngor gan ddatblygwr hen safle ysgol St Cyres, Dinas Powys.  Mae'r tir wedi'i ddyrannu ar gyfer defnydd cymunedol.

Yn anffodus bu oedi sylweddol wrth drosglwyddo’r tir hwn.  A wnewch chi nodi pryd y bydd y materion sy'n weddill wedi'u datrys?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltiad Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio**

Mae'r trafodaethau'n parhau â Barratts David Wilson ynghylch gwaith amrywiol y mae'n rhaid i'r adeiladwr tai ei gwblhau yn y Parth Defnydd Cymunedol a Hamdden ar Heol Murch, Dinas Powys.  Dyma waith y mae angen ei gwblhau cyn i'r c. 7 erw o dir gael ei drosglwyddo gan yr adeiladwr tai i Gyngor Bro Morgannwg. Rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau gan Barratts yn ystod tymor yr hydref.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Franks i’r Aelod Cabinet a allent fod yn fwy penodol o ran y dyddiad, ac mewn ymateb i hynny dywedodd yr Aelod Cabinet na allent roi union ddyddiad, ond y byddai'n mynd ati'n ddygn i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau cyn gynted ag sy'n bosibl.

(xvii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.P. Franks**

Mae Cyngor Cymuned Dinas Powys wedi gofyn am gael trosglwyddo Cae Chwarae Parc Seel i'r Cyngor Cymuned o dan ddarpariaethau'r polisi trosglwyddo asedau.  Er bod adroddiad i fod i gael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Ebrill, ymddengys na chafwyd rhyw lawer o gynnydd.  A wnewch chi roi diweddariad?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Cefais wybod eich bod wedi cael diweddariad am y mater hwn gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai drwy e-bost i Gynghorydd Cyngor Cymuned Dinas Powys, lle cafodd eich enw ei gopïo i mewn, ar 13 Medi 2023.

Fel y dywedwyd bryd hynny, yr hyn sydd wrth wraidd yr oedi cyn cyflwyno'r adroddiad trosglwyddo tir er ystyriaeth y Cabinet yw'r ffaith nad yw ein swyddogion technegol wedi derbyn yr adroddiad prisio tir eto gan y prisiwr a benodwyd yn allanol. Deallaf eich bod hefyd wedi cael gwybod bod adroddiad i'r Cabinet ar y mater hwn wedi'i lunio ar ffurf drafft, a'r unig beth sydd ei angen i gwblhau'r adroddiad yw'r wybodaeth prisio tir.

Yn anffodus, mae galw sylweddol am waith prisio tir ar hyn o bryd sy'n achosi oedi wrth ddychwelyd adroddiadau. Rydym yn disgwyl y prisiad tir yn ôl cyn diwedd mis Medi 2023 a bydd adroddiad y Cabinet yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cabinet ar ôl hynny.

**<u>Atodol</u>**

Dywedodd y Cynghorydd Franks ei fod o'r farn fod yr oedi'n dwyn anfri ar y Cyngor, gan ei fod yn ymwybodol bod yr adroddiad i'r Cabinet i fod i gael ei ddrafftio ym mis Ebrill. Fodd bynnag, roedd yn ddiolchgar am yr wybodaeth, ac yn edrych ymlaen at dderbyn yr adroddiad ar ddiwedd mis Medi.

(xviii) **<u>Cwestiwn gan y Cynghorydd C.P. Franks</u>**

Ac ystyried bod y gyllideb yn gorfodi toriad o £2 filiwn ar gyfer Addysg, a allwch ddweud wrthym beth yw sefyllfa bresennol cyllidebau ysgolion, manylion yr ysgolion hynny nad ydynt yn gallu cytuno ar gyllideb gytbwys, a'r hyn rydych chi'n cynnig ei wneud i sicrhau y gellir darparu'r cwricwlwm?

**<u>Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a’r Gymraeg</u>**

Ar hyn o bryd mae 21 o ysgolion yn rhagweld diffyg yn y gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Yn ôl y rheoliadau mae'n rhaid i ysgolion sy’n cael eu hunain mewn sefyllfa o ddiffyg ariannol gyflwyno cynllun adfer tair blynedd i ddileu’r diffyg hwnnw dros ychydig flynyddoedd. Dim ond 3 ysgol sy’n gallu mantoli cynllun adfer tair blynedd, felly mae 18 ysgol ar hyn o bryd mewn sefyllfa gyllidebol anadferadwy.

Ychydig o gymorth ariannol ychwanegol sydd ar gael i gefnogi ysgolion eleni. Mae £2.3m wedi'i glustnodi ar gyfer costau ynni, a bydd yn cael ei ddyrannu ar sail y biliau a dderbynnir. Mae cyllid ychwanegol o £200k hefyd wedi'i ddyrannu o'r cronfeydd wrth gefn i ysgolion sy'n destun mesurau arbennig. Dyrannwyd y cyllid hwn i helpu'r ysgolion i gael staff a hyfforddiant ychwanegol. Mae £850k arall ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol hefyd wedi'i ddyrannu i ysgolion o'r cronfeydd wrth gefn. Mae swyddogion a chydweithwyr o Gonsortiwm Canolbarth y De yn parhau i weithio'n agos gyda phob ysgol, gan gynnig cyngor arbenigol er mwyn sicrhau bod ysgolion yn parhau i fod yn weithredol a bod ganddynt staff priodol.

**<u>Atodol</u>**

Gofynnodd y Cynghorydd Franks sut y gallai'r Cyngor sicrhau'r cyhoedd y byddai'r ysgolion yn gallu darparu lefel ddigonol o addysg.

Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Aelod Cabinet fod pob gwasanaeth yn cael ei fonitro.

(xix) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G. Bruce**

Gynghorydd Mark Wilson, a wnewch roi canlyniadau'r Astudiaeth Dichonoldeb y dywedasoch y byddai swyddogion yn ei chynnal ar Heol Ffwl-y-mwn, y Rhws, yn gysylltiedig â defnyddio biniau?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Mae swyddogion wedi adolygu'r defnydd o'r biniau sbwriel yn ardal Heol Ffwl-y-mwn, y Rhws, ac wedi canfod bod peth achosion o gamddefnyddio biniau a phroblem yn gysylltiedig â'u capasiti sy'n golygu bod angen un bin sbwriel ychwanego lyn yr ardal hon.

Byddaf felly'n trefnu i'r Swyddog o fewn y gwasanaeth gysylltu â'r Aelodau Ward lleol i gytuno ar leoliad y bin newydd, a hefyd yn sicrhau bod Tîm Gorfodi'r Cyngor yn mynd ar drywydd unrhyw achos o gamddefnyddio biniau.

(xx) **Cwestiwn gan y Cynghorydd W.A. Hennessy**

Tybed a wnaiff yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Wasanaethau Cymdogaeth roi gwybod i mi a oes bwriad i ostwng y nifer o weithiau y bydd llecynnau cymunedol yn cael eu torri o saith gwaith i bum gwaith y flwyddyn oherwydd pwysau costau?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2023 / 2024 nid oes unrhyw gynlluniau i ostwng y nifer o weithiau y bydd y gwair yn cael ei dorri. Yn wir, bydd cyfanswm o 8 toriad eleni ac un toriad yn gynnar ym mis Mawrth 2024.

(xxi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Yn ôl Llawlyfr Arwyddion Traffig yr Adran Drafnidiaeth:

> *Mae'r gorddefnydd o arwyddion traffig yn difetha'r dirwedd, yn gwastraffu arian trethdalwyr ac yn gwanhau negeseuon pwysig sy'n hanfodol i ddiogelwch. Mae annibendod hefyd yn cynyddu peryglon i weithwyr ffordd ac yn creu beichiau cynnal a chadw ychwanegol.*

Ymddengys mai bwriadau da sydd wrth wraidd y nifer o rybuddion ynghylch ceffylau ar lonydd trac sengl a phrif ffyrdd. Er hynny, nid ydynt yn ymddangos fel pe baent o ryw lawer o fudd i farchogion, ac maent yn ein gorfodi i ysgwyddo costau parhaus. Yn ôl yr Adran Drafnidiaeth mae'n ofynnol i Awdurdodau Priffyrdd ddefnyddio cyn lleied o arwyddion â phosib. Faint o arwyddion perygl

ceffylau sydd wedi'u gosod, a phryd fydd y rhai nad ydynt o ryw lawer o fudd yn cael eu tynnu ymaith?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Mae 64 o arwyddion wedi'u gosod ar draws y Sir. Nid oes unrhyw fwriad i gael gwared ar unrhyw rai ar hyn o bryd.

**Atodol**

A fyddai angen yr arwyddion hyn lle bo'r terfyn cyflymder yn 20mya.

Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Aelod Cabinet ei bod hi'n arfer cyffredin yn y DU i osod Arwydd Ffordd Marchogaeth Ceffylau ar lonydd gwledig neu lle bo llwybrau ceffylau'n croesi ffordd. Mae'r arwyddion yn rhybuddio gyrwyr y gallai marchogion fod yn bresennol ar y ffyrdd. Maent wedi'u gosod er diogelwch pob defnyddiwr ffordd. Mae'r prosiect y cyfeirir ato'n cael ei gyflwyno gan y tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac yn anelu i gynnig cyfleoedd diogel am fynediad i farchogion ceffylau a beicwyr. Gan fod y llwybrau'n ffinio â'r briffordd mewn rhai ardaloedd mae'r arwyddion yn ceisio sicrhau diogelwch defnyddwyr lleol presennol, ond hefyd yn ceisio sicrhau diogelwch defnyddwyr ychwanegol cyn gynted ag y bo'r llwybr yn derfynol ac wedi'i gyhoeddi. O ran y terfyn 20mya, meddyliai y byddai hefyd yn fwy diogel i bob math o ddefnyddwyr ffordd.

(xxii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Mae pyst newydd wedi cael eu gosod ar gyfer yr arwyddion terfyn cyflymder newydd, gyda chontractwr yn darparu tîm o ddau weithiwr a cherbyd am y dydd i osod dim ond chwe phostyn ac arwyddion. Faint mae'n ei gostio i osod postyn newydd ac ychwanegu arwydd terfyn cyflymder arno?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Ar gyfartaledd, y gost i osod postyn safonol diamedr 76mm gydag arwydd rheoleiddio diamedr 600mm, ynghyd â threfniadau angenrheidiol i reoli'r traffig, yw £1,044.52.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Perry pryd y byddai'r gwaith o osod yr arwyddion yn cael ei gwblhau.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet i'r Cynghorydd Perry anfon e-bost ato a byddai'n ymateb i hwnnw.

(xxiii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Mae trigolion Tresimwn yn rhyfeddu at eu harwyddion terfyn cyflymder newydd, sydd wedi gostwng y terfyn cyflymder o 40mya i 20mya. O nodi cyngor swyddogion yr Awdurdod Priffyrdd ynghylch yr hyn sydd ei angen ar gyfer terfyn cyflymder 20mya - ffordd 300m o hyd neu fwy, cyfres o dri golau stryd o leiaf nad oes mwy na 183m rhyngddynt, ac isafswm o ffryntiau eiddo, mae'r Old Forge yn cynnig mynediad at dair tramwyfa a chae, yn cynnwys un golau stryd ac ond yn 27.2m o hyd. A yw'r ddau bostyn gydag arwyddion newydd sydd wedi'u hychwanegu at gyffordd Old Forge â Heol y Bont-faen yn angenrheidiol, ac a ydynt yn cynnig gwerth am arian cyhoeddus?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Mae'r ateb yn syml ac nid oes ganddo ddim i'w wneud â gwerth am arian neu fel arall. Er mwyn cydymffurfio â'r Gorchymyn perthnasol a wnaed gan Lywodraeth Cymru bu'n rhaid darparu arwyddion priodol i adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol a'r terfyn cyflymder rhagosodedig o 20mya.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Perry a oedd yr arwyddion terfyn cyflymder newydd yn Nhresimwn yn gyson.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet adroddiad y Cabinet o fis Medi 2023 i sylw'r Cynghorydd Perry.

(xxiv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Mae'r TRO a gyflwynwyd drwy weithredu'r 20mya wedi gostwng terfyn cyflymder Chapel Lane yn Trehill i 20mya. Pam na chafodd y TRO ei ddefnyddio hefyd i ostwng y terfyn cyflymder ar Well Lane i 20mya ym mhentref Sain Nicolas lle eir heibio 5 annedd? Ac wedyn pam na pharhawyd â'r 20 at y ddwy annedd ar ben Well Lane, gan fod y lôn gul droellog yn cael ei defnyddio gan lawer o bobl ar droed, am ei bod yn rhan o Lwybr Treftadaeth y Mileniwm, ac yn creu cyswllt uniongyrchol i gerddwyr rhwng Sain Nicolas a Llanbedr.

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Roedd cyflwyno 20mya ledled y Fro yn destun ymgynghoriad, ac roedd yr adroddiad diweddar i'r Cabinet yn cofnodi'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn asesu'r ymatebion hynny. Nid oes gennyf unrhyw fwriad i ailadrodd materion penodol yng nghyfarfod y Cyngor - mae croeso ichi ddarllen yr adroddiad yn fanwl.

(xxv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Ar 17 Medi, 2023, fel ffordd gyfyngedig cafodd Heol y Bont-faen yn Sain Nicolas ei newid yn ddiofyn i 20mya cyn i TRO ddod i rym ar 21 Medi i ddad-wneud hynny a dychwelyd y terfyn cyflymder i 30mya - cynnydd o 50% mewn cyflymder a dyblu llygredd sŵn yr amgylchedd o gymharu â phe bai Cyngor y Fro heb wneud dim.Mae cynyddu'r terfyn cyflymder i 30 yn golygu bod llygredd sŵn sy'n niweidiol i iechyd a llesiant ar Heol y Bont-faen, Sain Nicolas, unwaith eto, a bod yr heol wedi'i dynodi ar gyfer Gweithredu â Blaenoriaeth i ostwng sŵn i lefel ddiogel yng Nghynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd Llywodraeth Cymru. Sut oedd y weithred o ailgyflwyno terfyn cyflymder sy'n gorfodi pobl ddioddef lefelau niweidiol o sŵn yn gyfreithlon a pha Gamau â Blaenoriaeth y bydd Cyngor Bro Morgannwg yn eu cymryd i leihau sŵn ffyrdd i lefel dderbyniol?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Fel y cynghorwyd i'ch cwestiwn cynharach, bu gweithredu 20 mya ledled y Fro yn destun ymgynghoriad ac roedd adroddiad diweddar y Cabinet yn cofnodi'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn cynnwys asesiad ohonynt. Nid oes gennyf unrhyw fwriad i ailadrodd materion penodol yng nghyfarfod y Cyngor - mae croeso ichi ddarllen yr adroddiad yn fanwl.

Rwy'n ymwybodol o'ch pryderon ynghylch sŵn yng nghyswllt Sain Nicolas ac rwyf hefyd yn ymwybodol, fel yr ydych chi, fod y rhain wedi derbyn ystyriaeth a sylw manwl mewn llawer o ohebiaeth flaenorol â'r Cyngor.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Perry pa lefel o hyder fyddai gan y cyhoedd.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet y cynlluniau a gyflwynwyd i'r Cabinet i sylw'r Cynghorydd.

(xxvi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Mae'r Asiantaeth Cefnffyrdd yn rheoli Llwybrau Strategol yng Nghymru, ac mae terfyn cyflymder o 20mya ar rai ohonynt. Mae Heol y Bont-faen, Sain Nicolas a Thresimwn yn brif lwybr a reolir gan yr Awdurdod Priffyrdd lleol a ddefnyddir yn achlysurol fel llwybr dargyfeiriol ar gyfer yr M4. Mae'r M4 wedi'i chyfyngu mewn mannau i 50mya ac yn aml 40mya. Er ei bod yn bodloni'r meini prawf Ffyrdd Cyfyngedig (goleuadau stryd, nifer yr anheddau sy'n wynebu'r ffordd, adeiladau allweddol, safleoedd bws), mae'r cyfyngiad wedi'i godi ar y ffordd yn Sain Nicolas a Thresimwn, gyda therfynau cyflymder o 30mya a 40mya. A ddylai pentrefi orfod dioddef terfynau cyflymder tebyg i'r hyn a geir ar draffyrdd?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Unwaith eto, edrychwch ar adroddiad y Cabinet sy'n manylu ar yr holl ymatebion ac yn cynnwys asesiad o'r ymatebion hynny.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Perry i'r Aelod Cabinet a oedd o'r farn fod terfyn o 45mya yn rhy uchel i Dresimwn.

Tynnodd yr Aelod Cabinet sylw'r Cynghorydd Perry at wefan y Cyngor.

(xxvii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Yn eu hymateb i faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad ar eithriadau i'r 20mya, mae'r Awdurdod Priffyrdd yn honni bod preswylwyr ac ymwelwyr â Threhill (llwybrau S11/8/1 ac S11/4/2) yn gallu croesi Heol y Bont-faen wrth groesfan warchodedig. I gyrraedd y groesfan agosaf mae'n rhaid cerdded 1,000m yn ychwanegol a gallu ymdopi â throedffyrdd sy'n culhau o 1.2m i 0.7m ac nad ydynt yn barhaus ar un ochr. A yw'r Awdurdod Priffyrdd yn bod yn rhesymol wrth awgrymu y gall ymwelwyr a phreswylwyr ddilyn y llwybr hwn i groesi'n ddiogel?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Unwaith eto, edrychwch ar adroddiad y Cabinet sy'n manylu ar yr holl ymatebion ac yn cynnwys asesiad o'r atebion, gan fod hwn yn gwestiwn arall sy'n ymwneud ag agweddau manwl ar weithredu'r cynllun 20mya.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Perry i'r Aelod Cabinet a oedd yn cytuno bod bylchau mewn gwybodaeth leol.

Mewn ymateb i hynny, dywedodd yr Aelod Cabinet fod hynny'n dibynnu ar eich diffiniad o fwlch.

(xxviii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Pam bod pedwar safle bws wedi'u hadeiladu i'r de o Orsaf Drenau Dociau'r Barri lle nad oes gwasanaethau bws tra bod llwybr bws 98 yn mynd heibio ochr flaen Gorsaf y Barri lle nad oes unrhyw safleoedd bws yn union y tu allan?

**Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy**

Hoffwn gyfeirio'r ateb cynharach ynghylch Cyfnewidfa Dociau'r Barri i sylw'r Cynghorydd Perry, a chyfeirio at y ffaith nad yw gwasanaeth 98 yn weithredol mwyach.

**Atodol**

Sawl gwasanaeth bws a sawl bws fesul awr y gall y pedwar safle bws a osodwyd ddarparu ar eu cyfer?

Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Dirprwy Arweinydd mai trafodaethau y dylid eu cynnal yn y dyfodol oedd trafodaethau â'r Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol.

(xxix) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Mae'r pellter y mae'n rhaid i breswylwyr y datblygiad newydd yn Nhresimwn, Gerddi Cottrell, ei gerdded at safle bws ar gyfer bysiau tua'r dwyrain yn rhesymol. Fodd bynnag, nid oes safle bws ar ochr arall y ffordd, gyda'r safle bws nesaf yn ychwanegu 350m at y daith, fodd bynnag nid oes llwybr troed yn ôl i'r groesfan ac mae'r ffordd yn arbennig o anodd ei chroesi gan ei bod yn llydan, y terfyn cyflymder yn uchel ar 40mya, a bod llawer o gerbydau'n teithio ar ei hyd. Bydd angen i breswylydd â nam synhwyraidd, gwybyddol neu symudedd gerdded 800m ychwanegol, gan groesi'r ffordd ger tafarn y Red Lion. Mae trigolion Gerddi Cottrell (ac ymwelwyr â Fferm Ymddiriedolaeth Amelia) angen safle bws newydd tua'r gorllewin ger Sycamore Cross ar gyfer y gwasanaeth X2 tra bo'r safleoedd bws yn segur yng Ngorsaf Drenau Dociau'r Barri. Pryd fydd y safle bws y mae angen mawr amdano yn cael ei ddarparu?

**Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy**

Mae'r safle bws agosaf tua'r gorllewin wedi'i leoli ar yr A48 gyferbyn â Fferm Sheep's Court sydd tua 400 metr o'r fynedfa i'r datblygiad newydd yng Ngerddi Cottrell yn Nhrebefered.

Er nad yw’r pellter yn afresymol, rwy’n derbyn bod hygyrchedd i’r safle bws hwn yn broblemus gan fod angen i gerddwyr groesi heol lydan a phrysur yr A48 heb unrhyw groesfan reoledig, a heb gwrbiau wedi'u gostwng i helpu defnyddwyr â nam ar eu symudedd.

Wrth gwrs, byddwn yn ystyried yr holl gyfleoedd ariannu yn y dyfodol i wneud gwelliannau angenrheidiol sy'n cynnig mynediad mwy diogel a chyfleus i safle bws y gorllewin er budd holl breswylwyr yr ardal hon, gan gynnwys preswylwyr Gerddi Cottrell.

**Atodol**

Wrth gyfeirio at y Ddinas, gofynnodd y Cynghorydd Perry a ellid gwneud cais iddynt ystyried rhoi'r flaenoriaeth i safleoedd bws.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd y byddai pob cyfle ariannu yn cael ei ystyried i wneud gwelliannau yn y dyfodol.

(xxx) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Faint o blant sy’n croesi’r A48 yn Nhresimwn am gludiant ysgol lle bo'r terfyn cyflymder yn 40mya, a faint sy'n croesi lle bo'r terfyn cyflymder cenedlaethol yn berthnasol?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a’r Gymraeg**

Nid yw'r Cyngor yn casglu nac yn cadw'r data hyn. Fodd bynnag, os dymunwch drafod unrhyw faterion gyda chydweithwyr trafnidiaeth ysgol, byddwn yn eich cynghori i gysylltu'n uniongyrchol â thîm trafnidiaeth teithwyr y Cyngor.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Perry a oedd y Cabinet yn pryderu bod nifer o blant yn croesi'r ffordd lle'r oedd cyfyngiad 60mya mewn grym.

Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n ddiolchgar pe gallai'r Cynghorydd anfon unrhyw fanylion penodol ati er mwyn iddi allu eu hystyried a rhoi ateb manwl.

(xxxi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Yng nghyfarfod diwethaf ein Cyngor Llawn, datgelwyd bod contractwr, tra'r oedd yn gweithio i Gyngor y Fro, wedi tirlenwi/tipio'n anghyfreithlon, a bod cais cynllunio yn yr arfaeth i geisio rheoleiddio'r gweithgarwch. Sut y cafodd hyn ei ganiatáu - ble'r oedd y trefniadau i oruchwylio, rheoli a chraffu ar y contractwr?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Rwy’n cymryd eich bod yn cyfeirio at gynllun y Lôn Pum Milltir. A'r ateb byr yw nad oedd unrhyw achos bwriadol o dirlenwi anghyfreithlon na thipio anghyfreithlon. O ganlyniad i hyn, mae byrdwn eich cwestiwn yn ddiffygiol, ac nid yw'r hyn rydych chi'n ei ofyn yn berthnasol.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Perry beth oedd y trefniadau craffu ar gyfer cais cynllunio ôl-weithredol.

Roedd yr Aelod Cabinet o'r farn nad oedd angen iddo ymateb, gan nad oedd hwn yn gwestiwn.

(xxxii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Cyflogwyd contractwr ar Gontract Dylunio ac Adeiladu i adeiladu'r A4226 newydd ac adlinio cyffordd Sycamore Cross. Nid oedd lluniadau o'r gwaith a oedd yn cael ei wneud ar gael tan y diwrnod cyn i'r gwaith gael ei gwblhau, sy'n golygu mai

contract Adeiladu a Dylunio ydoedd mewn gwirionedd, ac na chafodd y cyhoedd unrhyw gyfle i roi mewnbwn i'r dyluniad. A oes unrhyw wersi i'w dysgu o'r profiad hwn, ac a fyddai contract o'r fath yn cael ei gynnig ar gyfer cynllun gwaith peirianneg yn y dyfodol?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Roedd y gwaith arfaethedig ar gyfer yr A4226 a oedd wedi'i hailalinio yn destun cais cynllunio wedi'i ddisgrifio fel a ganlyn....*'Cynnig am welliannau ar hyd yr A4226 bresennol rhwng Cylchfan Waycock Cross yn y Barri a'r gilfan i'r gogledd o Ganolfan Hebogiaid Cymru a darparu ffordd newydd oddi ar ffordd i'r dwyrain o'r A4226 bresennol a fydd yn ailgysylltu'r A4226 bresennol ychydig i'r de o Blackland Farm'.* Rhoddwyd caniatâd cynllunio tybiedig ym mis Rhagfyr 2016 gydag amodau priodol. Gallwch weld yr holl ddogfennau cynllunio ar gyfer cynllun Lôn Pum Milltir drwy Borth Cynllunio'r Cyngor.

Ar sail y wybodaeth uchod, ni allaf dderbyn eich honiad nad oedd cyfle i'r cyhoedd gael unrhyw fewnbwn i ddyluniad y cynllun hwn.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Perry pa gyfleoedd oedd ar gael i drafod cael gwared â'r Gaer Rufeinig wrth ymyl Whitton Mawr.

Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd angen iddo ymateb, gan nad oedd y cwestiwn yn ymwneud â'r cwestiwn blaenorol.

(xxxiii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Cafodd Ysgol Llancarfan ei "symud" yn ddadleuol i South Point yn y Rhws gan adael pentref Llancarfan heb ganolfan werthfawr. Mae 16 mis wedi mynd heibio ers cael fy ethol yn Aelod dros Lancarfan, ac nid wyf wedi cael fy mriffio am gynlluniau ar gyfer y safle, er imi wneud cais i swyddogion i gael gwybod am unrhyw ddatblygiadau. Efallai y gallwch roi briff i'r holl Aelodau Etholedig?

**Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy**

Codwyd hyn mewn e-bost a anfonwyd gennych ataf, ac anfonais ateb atoch ar 19 Medi 2023.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Perry pryd y byddai'r adolygiad yn cael ei gynnal o feysydd chwarae a mannau agored, gan fod 18 mis wedi mynd heibio ers ysgrifennu'r cofnod.

Dywedodd yr Aelod Cabinet ei bod yn deall bod y Cynghorydd Perry eisoes wedi cael ymateb ynghylch hyn drwy e-bost.

(xxxiv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Yn hytrach na gwerthu holl safle Ysgol Llancarfan, a fydd Bro Morgannwg yn darparu rhywfaint o fannau agored cyhoeddus ac offer chwarae i blant lleol ar ran o'r safle? Rwyf wedi sylwi bod offer chwarae mewn cyflwr da yn dal i fod ar dir yr ysgol, er bod ffens yn atal preswylwyr rhag mynd atynt.

**Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy**

Cyn i'r tir gael ei gynnig ar y farchnad agored, hysbyswyd Cyngor Cymuned Llancarfan a Grŵp Rheoli Asedau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol fod y tir ar gael. Ni chafwyd unrhyw ddiddordeb yn y safle.

(xxxv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Yn dilyn marwolaeth plentyn mewn dolen codi a gollwng ar dir ysgol, mae llywodraethwyr ysgol wedi bod yn pryderu am ddiogelwch y math hwn o seilwaith, a'r atebolrwydd yn gysylltiedig â hynny. Pan fydd Ysgolion yr 21ain Ganrif yn trosglwyddo adeilad newydd Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas i'r llywodraethwyr, bydd yn rhaid i'r llywodraethwyr ateb 'na' i un o gwestiynau RoSPA yn gysylltiedig â llwybrau a ffafrir gan gerddwyr. A yw'n deg gorfodi llywodraethwyr ysgol i wneud penderfyniadau anodd?

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg**

Nid oes neb yn gorfodi neb i wneud penderfyniadau anodd. Ymhellach mae'r materion manwl sy'n ymwneud â chynllunio ysgol gynradd St Nicholas wedi bod yn destun gohebiaeth sylweddol rhyngoch chi a swyddogion ers cryn amser a byddwch wedi cael atebion manwl i bwyntiau fel hyn.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Perry a oedd unrhyw wersi wedi'u dysgu o'r gwaith i ddylunio ac adeiladu'r ysgol yn South Point?

Dywedodd yr Aelod Cabinet ei bod yn anghytuno ag asesiad y Cynghorydd Perry a gofynnodd iddo anfon manylion penodol ati trwy e-bost.

(xxxvi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Mae trigolion Sain Nicolas, ac ymwelwyr o ardaloedd ymhellach i ffwrdd, yn parhau i wrthwynebu colli dwy goeden aeddfed o flaen Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas. Bwriedir eu torri i lawr naill ai am eu bod yn colli dail bob hydref neu oherwydd y gallai eu gwreiddiau ddifrodi wyneb y mannau parcio arfaethedig - rwyf wedi sylwi bod deunyddiau meddal yn cael eu gosod dros wreiddiau coed stryd o amgylch y Fro. Mae coed yn bwysig yn ein brwydr yn erbyn Newid Hinsawdd, ond bu farw coed oedd newydd eu plannu ym Mharc Gwledig

Cosmeston, Ysgol Dewi Sant, Ysgol South Point a mannau eraill ledled y Fro yn y tywydd sych cynnes a gafwyd yn sgil Newid Hinsawdd ym mis Mehefin eleni ac yn y blynyddoedd diwethaf. Tybed a wnewch ymweld â Sain Nicolas gyda mi i edrych ar y coed hyn sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr, ac ymgyrchu i achub y coed os yw'r penderfyniad i gael gwared arnynt yn ddewisol yn hytrach na hanfodol.

**Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy**

Gyda pharch, rydych chi wedi codi hyn yn ystod y cam ymgeisio, ac rwyf wedi gweld amryw o negeseuon e-bost gennych ynghylch hyn. Nid oes gennyf unrhyw sylw pellach i'w ychwanegu at yr ymatebion manwl iawn a roddais eisoes.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Perry a oedd yr Aelod Cabinet yn siomedig na chynhaliwyd unrhyw ymweliad safle priodol. Ymatebodd yr Aelod Cabinet drwy ddweud ei bod yn siomedig bod y Cynghorydd Perry yn codi'r cwestiwn gan ei fod wedi derbyn nifer o ymatebion ynghylch y mater hwn.

395 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Cyflwynwyd ac atebwyd y cwestiynau canlynol fel y'u dangosir, yn unol â’r protocol y cytunwyd arno gan y Cyngor ar 5 Mai, 2010.

(i) **Cwestiwn gan Mr. M. Wallis**

Ymddengys bod angen adnoddau sylweddol ar gyfer addewid y Cyngor i fonitro cyflymder ar bob un o'r dwsinau o ffyrdd eithriedig 20mya ynghyd â phryderon cysylltiedig. Allwch chi amlinellu'r gofynion ar gyfer y dasg, gan gynnwys rhyngwynebu â'r cyhoedd? Yn lle hyn, a fyddech yn ystyried cael gwared â'r rhan fwyaf o'r eithriadau 20mya a chanolbwyntio ar yr ychydig o achosion y tybir bod iddynt fanteision sylweddol?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Bydd swyddogion traffig y Cyngor yn monitro ffyrdd eithriedig sy'n aros ar 30mya ac yn cynnal adolygiadau o'r ffyrdd eraill o fewn y Fro lle codir pryderon, i sicrhau, hyd y bo'n rhesymol ac yn ymarferol, nod terfynau cyflymder yn addas i'r amodau. Gall y cyhoedd gysylltu â'r Cyngor ynghylch materion o'r fath drwy ei sianelau arferol, drwy'r wefan a'r Ganolfan Gyswllt.

Bydd unrhyw adolygiadau yn y dyfodol yn cael eu cynnal yn dilyn cyfnod priodol i ymwreiddio'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya ac ar sail canllawiau wedi'u diweddaru yr ydym yn disgwyl amdanynt gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â "Chylchlythyr Rhif: 24/2009 – Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru” - ac nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi dyddiad ar gyfer cyhoeddi'r canllawiau hyn eto.

Mae'n wir hefyd y bydd unrhyw waith monitro ac adolygu y ddibynnol ar y cyllidebau a'r adnoddau sydd ar gael ar y pryd, ac ystyried y galw tebygol, ac roedd cyfeiriad penodol at hyn drwy'r adroddiad ar Wrthwynebiadau a ystyriwyd gan y Cabinet. Lle bo angen, bydd gwaith i asesu neu adolygu ffyrdd yn y dyfodol yn cael ei flaenoriaethu yn ôl diogelwch.

(ii) **Cwestiwn gan Mr. D. Clarke**

Mewn llythyr diweddar at Jane Hutt AS, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â’r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol y canlynol mewn perthynas â’r ceisiadau cynllunio diweddar ar gyfer y llosgydd ar Heol David Davies: "...mae cyflwyno'r hysbysiad wedi bod yn llwyddiannus o ran egluro sefyllfa gyfreithiol yr hyn sydd wedi'i adeiladu a sicrhau bod cais cynllunio ffurfiol yn cael ei gyflwyno i ganiatáu i'r Cyngor ystyried y cynllun fel y'i hadeiladwyd yn erbyn y polisi cyfredol." A allai’r Aelod Cabinet gadarnhau polisi’r Cyngor, o gofio datganiad y Cyngor o argyfwng hinsawdd, wrth ystyried cais am ddatblygiad a fydd, wrth weithredu, yn allyrru oddeutu 130,000 tunnell o garbon deuocsid i’r atmosffer bob blwyddyn. Sut y bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod prosiect o'r fath yn cydymffurfio â tharged Llywodraeth Cymru o fod yn sero net erbyn 2035? A allai'r Aelod Cabinet hefyd egluro sut mae ystyried y cynllun fel y'i hadeiladwyd yn erbyn y polisi presennol yn ymdrin â'r methiant blaenorol i sicrhau Asesiad Effaith Amgylcheddol, gan nad yw'n debygol bod gan y Cyngor bolisi ar gyfer y methiant hwn.

**Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltiad Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio**

Bydd Pwyllgor Cynllunio’r Cyngor yn ystyried y datblygiad fel y’i cynigir gan roi sylw i Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig y Cyngor, polisïau Cenedlaethol sydd wedi’u cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru, argraffiad 11, a Chymru’r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040, a phob ystyriaeth gynllunio berthnasol arall. Bydd y Pwyllgor Cynllunio yn dod i benderfyniad ar ôl ystyried adroddiad sy'n cynnwys asesiad manwl o'r holl ffactorau perthnasol.

Mae'n bwysig nodi hefyd fod y ceisiadau cyfredol yn cynnwys Asesiad Effaith Amgylcheddol perthnasol, ac y bydd hwn yn cael ei gynnwys wrth ystyried y ceisiadau cyfredol, a gaiff eu hasesu yn ôl eu rhinweddau eu hunain.

(iii) **Cwestiwn gan Mr. L. Mack**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyfrifo lefel llifogydd o 8.75m UDO (0.5% ar gyfer llifogydd o'r môr) yng Nghei'r Dwyrain, gan awgrymu llifogydd sy'n cyrraedd dyfnder o 1 metr yn Cory Way, Cei'r Dwyrain, Heol David Davies a Heol Woodham. Ni all cerbydau brys fynd drwy lifogydd sy'n uwch na 0.60m, neu ddŵr sy'n llifo'n gyflym. A yw'r Cyngor wedi llunio Asesiad Llifogydd priodol ar gyfer yr ardaloedd hyn? Mae Cyngor Bro Morgannwg yn Awdurdod Cynllunio at Argyfwng ac yn Awdurdod Llifogydd Arweiniol (o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010),

felly a fydd y Cyngor yn ailasesu cynlluniau brys ar gyfer y peryglon llifogydd hyn ar fyrder?

**Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

O dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004, mae'n gyfrifoldeb statudol ar y Cyngor i baratoi cynlluniau diogelwch sifil ac ymateb i sefyllfaoedd argyfyngus sy'n effeithio ar Fro Morgannwg, gan gynnwys llifogydd. Mae gan y Cyngor Gynllun Ymateb i Lifogydd a gadarnhawyd drwy Fforwm Llifogydd y Fro, gan gynnwys cynrychiolaeth gan y Gwasanaeth Tân ac Achub a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Mae'r Cynllun Ymateb i Lifogydd yn nodi rôl ymatebwyr brys perthnasol a sefydliadau perthnasol eraill a'r gweithdrefnau allweddol i'w dilyn os ceir llifogydd.  Nid oes dyletswydd na swyddogaeth statudol yn gysylltiedig â’r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol i gynnal unrhyw beth tebyg i asesiad llifogydd priodol fel y cyfeiriodd Mr Mack ato.

Mae'r Cynllun Ymateb i Lifogydd yn cael ei adnewyddu ar hyn o bryd ond nid oes unrhyw gynlluniau i gynnal asesiad penodol na gweithredu mesurau arbennig yn gysylltiedig â'r safle hwn.  Mae rhybuddion llifogydd CNC ar gael ar eu gwefan ar gyfer yr ardaloedd lle nodwyd perygl posibl o lifogydd llanw o amgylch dociau'r Barri.

Ymddengys y gallai'r lefel gyfredol o berygl llifogydd llanw fod wedi'i gorddehongli, gan fod lefel llifogydd llanw'r tebygolrwydd blynyddol presennol o ormodedd o 0.5% (digwyddiad gydag 1 siawns mewn 200 i ddigwydd yn flynyddol) 7.5m yn Uwch Datwm Ordnans Newlyn.  Cafwyd yr wybodaeth hon o set ddata Coastal Design Sea Levels – Coastal Flood Boundary Extreme Sea Levels gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Adlewyrchir hyn yn fersiynau diweddaraf mapiau llifogydd CNC nad ydynt ond yn nodi ambell ddarn o ffordd lle ceir perygl isel o lifogydd llanw ar hyn o bryd, gan olygu bod

siawns o 1 mewn 1000 (0.1%) ac 1 mewn 200 (0.5%) o lifogydd yn yr ardaloedd hyn, a bod y perygl yng ngweddill y darnau yn isel iawn.

Er mwyn rhoi hyn yn ei gyd-destun, mae CNC wedi diweddaru’r mapiau llifogydd llanw ar gyfer yr ardal hon yn ddiweddar, ac mae’r mapiau'n dangos mai ond ambell ardal ar y ffyrdd dan sylw sy'n ardaloedd perygl llifogydd llanw isel (bob blwyddyn, mae'r siawns o lifogydd yn 1 mewn 1000 (0.1%) ac yn 1 mewn 200 (0.5%) yn yr ardal hon). Ar gyfer Tebygolrwydd Gormodedd Blynyddol o 0.5% (digwyddiad 1 mewn 200 mlynedd) fel y cyfeirir ato isod ni effeithir ar yr un o'r ffyrdd, ond byddai dŵr yn llifo dros ben ochr y cei a'r tir prysg cyfagos.

Ar ôl ail-wirio lefelau eithafol y môr heddiw ar gyfer y safle hwn mae'r Tebygolrwydd Gormodedd Blynyddol 0.5% heddiw 7.5m Uwch Datwm Ordnans Newlyn (sy'n sylweddol is na'r 8.75m y cyfeirir ato isod) gan godi i 7.9m Uwch Datwm Ordnans Newlyn ar gyfer y digwyddiad 0.1% (1 mewn 1000 o flynyddoedd) sy'n cyd-fynd â mapiau CNC.  Y Tebygolrwydd Gormodedd Blynyddol o 0.0001%

(1 mewn 10,000 mlynedd) ar sail lefel dŵr heddiw o 8.6m yw’r ffigwr uchaf sydd ar gael yn rhwydd ac sy’n dal ychydig yn is na'r ffigur y mae Mr Mack wedi'i ddyfynnu. Ymddengys yn debygol felly fod y ffigwr a ddyfynnwyd gan Mr Mack yn cynnwys swm i ganiatáu cynnydd yn lefel y môr a fyddai oddeutu 1 metr mewn 100 mlynedd, ond nid wyf yn ymwybodol o union ffynhonnell y ffigur i allu gwneud unrhyw ymchwil bellach.